



## Cyd-Bwyllgor Partneriaeth

**Dydd Gwener, 2 Chwefror 2024**

**CADEIRYDD:** Councillor Glynog Davies - Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg, (Cyngor Sir Caerfyrddin) (Aelod â Phleidlais) (Yn rhithwir)

<b>Voting Members</b>	
Councillor Robert Smith (Yn rhithwir)	Aelod Cabinet dros Addysg a Dysgu Learning (Cyngor Abertawe)
Councillor Guy Woodham (Yn rhithwir)	Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg, (Cyngor Sir Penfro) (Yn rhithwir)
<b>Chief Executives</b>	
Mrs. Wendy Walters (Yn y Siambr)	Cyngor Sir Gaerfyrddin (Prif Weithredwr)
Mr. Martin Nicholls (Yn rhithwir)	Cyngor Abertawe (Prif Weithredwr Arweiniol)
<b>Directors of Education</b>	
Mr. Gareth Morgans (Yn rhithwir)	Cyngor Sir Gaerfyrddin (Dirprwy Gyfarwyddwr Arweiniol)
Mr. Steven Richards-Downes (Yn rhithwir)	Cyngor Sir Penfro – (Dirprwy Gyfarwyddwr Arweiniol)
Ms. Helen Morgan-Rees (Yn rhithwir)	Cyngor Dinas a Sir Abertawe (Cyfarwyddwr Arweiniol)
<b>Officers</b>	
Mr. Ian Altman (Yn rhithwir)	Swyddog Arweiniol Partneriaeth
Mr Jonathan Haswell (Yn rhithwir)	Swyddog A151 Partneriaeth (Cyfarwyddwr Adnoddau, Cyngor Sir Penfro)
Ms. Linda Rees Jones (Yn rhithwir)	Swyddog Monitro (Cyngor Sir Caerfyrddin)
Mrs. Ruth Lee (Yn rhithwir)	Rheolwr Busnes Partneriaeth
Mrs. Janine Owen (Yn y Siambr)	Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd, cymryd nodiadau)
Mrs. Siwan Rees (Yn y Siambr)	Cyngor Sir Caerfyrddin (Cyfieithu)
Mr. Martin Runeckles (Yn y Siambr)	Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwe-ddarlledu)
<b>Observers</b>	
Cllr. Lyndon Jones (Yn rhithwir)	Cadeirydd Grŵp Craffu'r Cyngorwyr

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell:- 10:00yb - 10:46yb**



## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan William Bramble (y Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro), y Cyngorydd David Simpson (Cyngor Sir Penfro), Mrs Sarah Edwards, Dirprwy Swyddog Adran 151 (Cyngor Sir Penfro).

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol yn y cyfarfod.

## 3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD CYD BWYLLGOR Y PARTNERIAETH A GYNHALWYD AR Y 6ED O HYDREF 2023

**PENDERFYNWYD** Ilofnodi cofnodion cyfarfod Partneriaeth a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2023 gan eu bod yn gywir.

## 4. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION (OS OES RHAI)

**PENDERFYNWYD** Ilofnodi cofnodion cyfarfod Partneriaeth a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2023 gan eu bod yn gywir.

## 5. LLYTHYR GAN GADEIRYDD GRŴP CYNGHORWYR CRAFFU PARTNERIAETH

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor llythyr gan Gadeirydd y Grŵp Cyngorwyr Craffu Partneriaeth yn adlewyrchu ar y sylwadau yn dilyn cyfarfod diwethaf y Grŵp ar 23 Hydref, 2023.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** dderbyn y llythyr, sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

## 6. ADRODDIAD ALLDRO ARIANNOL 2022-23

Cafodd y Cyd-bwyllgor alldro ariannol ar gyfer 2022-23 a oedd yn cynnwys:-

- Cyllideb Partneriaeth 2022-23
- 2022-23 Cytundebau Lefel Gwasanaeth
- Cyfraniadau Awdurdodau Lleol
- Alldro 2022-23
- Incwm Grant ar gyfer 2022-23
- Risgiau a Chyfleoedd
- Cronfeydd wrth gefn

Dywedwyd bod y gyllideb wedi'i chymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor ar 29 Ebrill 2022, gyda chyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2022-23 a gymeradwywyd gan y Cyd-bwyllgor ar 3 Chwefror 2023.



Mewn ymateb i ymholiad a godwyd ynghylch cyfleoedd a/neu gyfyngiadau wrth ddefnyddio cronfeydd wrth gefn pe bai'n briodol gwneud hynny yn y dyfodol, cadarnhaodd Swyddog Adran 151 Partneriaeth fod y cronfeydd wrth gefn yn cael eu hystyried yn gronfeydd wrth gefn am ddim, ac nad ydynt yn cael eu cadw at ddibenion cyfrifyddu ac felly gellid eu defnyddio fel y bo'n briodol.

Gan gyfeirio at y £195k+ o gronfeydd Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol a gafwyd yn 2022-23 na chafodd ei wario ac a fyddai'n cael ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru, gofynnwyd a oedd hyn yn arferol a sut oedd hyn yn cymharu â'r blynyddoedd blaenorol? Dywedodd Swyddog Adran 151 Partneriaeth fod tanwariant fel arfer a bod Llywodraeth Cymru wedi caniatáu i danwariant bach gael ei gadw ar gyfer y dyfodol, ond eleni roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r tanwariant gael ei ddychwelyd. Ychwanegodd Swyddog Arweiniol Partneriaeth fod y tanwariant penodol hwn yn gysylltiedig ag un maes grant penodol ac esboniodd y rhesymau dros y tanwariant. Dywedodd Cyfarwyddwr Arweiniol Cyngor Dinas a Sir Abertawe mai'r nod mewn egwyddor fyddai osgoi tanwariant yn y dyfodol ar bob cyfle, felly byddai'r Grŵp Strategol yn monitro'r gyllideb yn ofalus er mwyn dyrannu unrhyw danwariant posibl i Awdurdodau Lleol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod yr Adroddiad Alldro Ariannol ar gyfer 2022/23 yn cael ei gymeradwyo.**

## **7. ADRODDIAD ARIANNOL PARTNERIAETH 2023-24 (RHAGFYR 2023)**

Cafodd y Cydbwyllgor ddiweddariad ar sefyllfa ariannol Partneriaeth ar ddiwedd Rhagfyr 2023 a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2023-24.

Nododd yr Aelodau'r wybodaeth fanwl benodol a ddarparwyd mewn perthynas â'r canlynol:

- Cytundebau Lefel Gwasanaeth
- Cyfraniadau Awdurdod Lleol
- Monitro'r Gyllideb - Rhagfyr 2023
- Incwm Grant ar gyfer 2023-24
- Risgiau a Chyfleoedd

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-**

- 7.1 bod yr adroddiad ariannol fel yr oedd ym mis Rhagfyr 2023 a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2023-24 yn cael eu nodi;**
- 7.2 bod y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2023-24 a'r incwm grant a'r dyraniad ar gyfer 2023-24 yn cael eu cymeradwyo.**



## 8. CYLLIDEB DDRAFFT PARTNERIAETH AR GYFER 2024-25

Cafodd y Cyd-bwyllgor gyllideb ddrafft Partneriaeth ar gyfer 2024-25 i'w hystyried a'i chymeradwyo 'mewn egwyddor', gyda'r bwriad o gael cymeradwyaeth ffurfiol yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor ar 7 Mehefin 2024 ar ôl cael cadarnhad o gyllid gan Lywodraeth Cymru, a bod Aelodau Awdurdodau Lleol wedi'u derbyn.

Roedd cyllideb ddrafft Partneriaeth ar gyfer 2024-25 yn cynnwys:

- Rhagdybiaethau ac amcangyfrifon
- Cyfraniadau Awdurdodau Lleol
- Cytundebau Lefel Gwasanaeth
- Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25
- Balans Gweithio a Chronfeydd wrth Gefn
- Risgiau a Chyfleoedd

### PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-

- 8.1 bod y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25 yn cael ei chymeradwyo 'mewn egwyddor', ond yn amodol ar newid unwaith y bydd cadarnhad o gyllid yn cael ei dderbyn, gydag atgyfeiriad i gyfarfod y Cyd-bwyllgor ar 7 Mehefin 2024 i'w chymeradwyo'n ffurfiol;
- 8.2 bod y Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer 2024-25 yn cael eu cymeradwyo.
- 8.3 bod y cyfraniad o'r gronfa wrth gefn ar gyfer 2024-25, yn lle cyfraniadau Awdurdodau Lleol, yn cael ei gymeradwyo.

## 9. DIWEDDARIAD SWYDDOG ARWEINIOL

Cafodd y Cyd-bwyllgor ddiweddariad gan y Swyddog Arweiniol a oedd yn darparu'r strategaeth rhannu gwybodaeth a chylch gorchwyl y grŵp cynllunio strategol i gryfhau'r cydweithio rhwng Partneriaeth ac Awdurdodau Lleol sy'n bartneriaid, yn ogystal â diweddariad ar ddarparu Cynllun Busnes C3.

Dywedwyd bod Cylch Gorchwyl y Strategaeth Rhannu Gwybodaeth wedi'i ddatblygu gan uwch-swyddogion Partneriaeth ac Awdurdodau Lleol. Roedd y Strategaeth yn rhoi rhesymeg dros rannu gwybodaeth yn effeithiol er mwyn sicrhau darpariaeth effeithiol i ysgolion ar draws y rhanbarth o dan y penawdau canlynol:

- Rhannu dogfennau
- Cynllunio'r Cynnig Dysgu Proffesiynol
- Gwybodaeth mewn ysgolion



Gan gyfeirio at y datganiad ynghylch y newid i ffrydiau cyllid o ran yr Awdurdodau Lleol yn hytrach na'r Rhanbarth, a wnaed ddiwedd Rhagfyr 2023, dywedwyd bod datganiad wedi'i ddiweddarau wedi dod i law ar lefel genedlaethol gan y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg ym mis Ionawr 2024. Roedd y disgwyliadau presennol ar gyfer y rhanbarthau yn mynd i newid ym maes addysg felly soniwyd y byddai angen trafodaethau pellach a allai yn y pen draw newid y cyllid a gyflwynwyd i'r Cyd-bwyllgor hwn ym mis Mehefin.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**9.1 bod diweddariad y Swyddog Arweiniol yn cael ei nodi**

**9.2 bod y dogfennau canlynol yn cael eu derbyn:**

- **Strategaeth Rhannu Gwybodaeth**
- **Grwpiau Cynllunio Strategol - Y Cylch Gorchwyl**
- **Cynllun Busnes C3 Monitro**

## **10. COFRESTR RISGIAU**

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor broffil risg cyffredinol y rhanbarth. Rhoddodd yr adroddiad amlinelliad o broffil risg cyffredinol y rhanbarth a oedd wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu argymhellion yn deillio o Archwiliad 2022-23 a hefyd i ystyried bod cyllid Llywodraeth Cymru wedi dod i law Partneriaeth, gan gynnwys yr holl ddyfarniadau amrywio disgwyliedig.

Nododd y Cyd-bwyllgor fod y map gwres yn dangos mai'r sgôr risg oedd Tebygolrwydd Canolig ac Effaith Uchel oherwydd:

- Diffyg Eglurder o ran swyddogaethau Partneriaeth
- Canfuwyd nad oedd Partneriaeth yn darparu gwerth am arian

Yn ogystal, roedd ail risg uwch yng ngoleuni argymhellion Archwiliad 2022-23.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a'r proffil risg.**

## **11. UNRHYW FATER ARALL**

Nododd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau busnes eraill y dylid eu hystyried fel mater o frys.

---

**CADEIRYDD**

---

**DYDDIAD**

